RHUFEINIAID rhithwir

Dewiswyd yr ardal o amgylch Caersws yn arbennig ar gyfer ‘taith hedfan rithwir trwy hanes’ gan ei bod yn gwneud stori dda am y Rhufeiniaid yng nghanolbarth Cymru.

Ym mhennod gyntaf y stori, fe welwn lwythi Oes yr Haearn yn yr ardal cyn dyfodiad y Rhufeiniaid. Roeddent yn byw mewn ffermydd a bryngeyrydd fel Cefncarnedd.

Gwrthwynebiad llwythi Oes yr Haearn brodorol i fyddin Rhufain wrth iddi wthio ymlaen sydd yn ail bennod y stori. Roedd y fryngaer yng Nghefncarnedd yn un o safleoedd posibl safiad olaf aflwyddiannus Caradog yn erbyn y Rhufeiniaid.

Cyfnod y goncwest Rufeinig, a’r heddwch a ddaeth yn ei sgil, yw testunau pennod tri a phennod pedwar y stori, a gynrychiolir gan y gaer Rufeinig dros dro gynharach i’r dwyrain o Gaersws a’r gaer barhaol ddiweddarach yn y pentref ei hun.

Dengys yr anheddiad a dyfodd ger y gaer yng Nghaersws, a’r gwrthrychau sydd wedi’u darganfod yno, sut y mabwysiadwyd rhai o arferion byw y Rhufeiniaid.

Byddin Rhufain yn cilio o Brydain a Chaersws Rhufeinig yn dod i ben a welir ym mhennod olaf y stori.

virtual ROMAN reality

The area around Caersws makes a good story about the Romans in mid Wales and has therefore been specially chosen for a virtual reality ‘flight through history’.

The first chapter of the story involves the Iron Age tribes in the area before the Romans came, living in farmsteads and hillforts like Cefncarnedd.

The resistance of the native Iron Age tribes to the advancing Roman army forms the second chapter of the story, the hillfort at Cefncarnedd being one of the possible sites where Caractacus tried but failed to make a final stand against the Romans.

The period of the Roman conquest and the peace which followed forms the third and fourth chapters of the story, represented by the earlier temporary Roman fort east of Caersws and the later permanent fort within the village itself.

The adoption of some of the trappings of a Roman way of life is shown by the settlement that sprang up next to the fort at Caersws and by the objects found there.

The final chapter of the story sees the withdrawal of the Roman army from Britain and the end of Roman Caersws.

Awyrlun o Gaersws o’r gogledd, gydag Afon Hafren yn troelli yn y cefndir. Gellir gweld y gaer ddiweddaraf o’r ddwy gaer Rufeinig yma yn y caeau yr ochr hon i’r pentref, gyda’r ffordd a llinell y rheilffordd yn ei chroesi.

Aerial view of Caersws from the north with the meandering river Severn in the background. The later of the two Roman forts here is visible in the fields on this side of the village, crossed by the road and the railway line.



Yn raddol, mae’r map o Gaersws Rhufeinig yn dod yn fwy cyfan wrth i wybodaeth newydd ddod i’r fei o hapddargynfyddiadau a chloddiadau yn y pentref ac o awyrluniau.

The map of Roman Caersws is gradually being pieced together as new pieces of information come to light from chance finds and excavations in the village and from aerial photography.

Adluniad dychmygus yw’r ddelwedd rithwir hon o Gaersws, wedi’i seilio ar yr hyn yr ydym wedi’i ddysgu am y gaer Rufeinig a’r anheddiad bychan a dyfodd gerllaw. Rhed ffyrdd Rhufeinig o’r gaer i bob cyfeiriad, yn cysylltu’r gaer a’r anheddiad â ffermydd cyfagos a threfi a dinasoedd pellach.

This virtual reality image of Caersws is an imaginative reconstruction, based on what we have learnt about the Roman fort and the small settlement which grew up alongside it. Roman roads run off from the fort in all directions, linking the linking the fort and settlement to neighbouring farms and more distant towns and cities.

contact - www.cpat.org.uk